RHEOLAU A THELERAU BENTHYG TELYN CYMDEITHAS CERDD DANT CYMRU

1. Cyfnod benthyg y delyn fydd un mis ar ddeg (11 mis) – 1af o Hydref i 31ain o Awst.

2. Tâl benthyca telyn bedal (40 tant) fydd £450.00 yn cynnwys gorchudd trwchus ac at ddefnydd tu allan i'r cartref mwy na dim ond arholiad. Bydd rhaid cyflwyno tystiolaeth eich bod wedi yswirio'r delyn eich hunain.

3. Tâl benthyca telyn di-bedal fydd £250.00 yn cynnwys gorchudd trwchus ac at ddefnydd tu allan i'r cartref yn fwy na dim ond arholiad. Bydd rhaid cyflwyno tystiolaeth eich bod wedi yswirio'r delyn eich hunain.

4. Mae modd talu'n llawn ac mae'r swm yn daladwy o fewn mis o dderbyn y gytundeb neu mae modd talu trwy archeb banc misol fydd yn cynnwys blaendal ac yna symiau penodol dros 10 mis. Mae'n rhaid talu'r blaendal o fewn mis o dderbyn y gytundeb.

5. Bydd y sawl a enwir yn (2) ar y ffurflen gais yn gyfrifol am gadw'r delyn yn ddiogel.

6. Rhaid cadw'r delyn mewn cyflwr priodol - adnewyddu unrhyw dannau a ddigwydd dorri gyda thannau coludd yn unig; a'i chyflwyno'n ôl i'r Gymdeithas yn yr un cyflwr ag y'i derbyniwyd. Ni ddylai'r Benthyciwr nac unrhyw berson ar ran y benthyciwr newid unrhyw dannau os nad ydynt yn gwybod yn iawn sut i newid y tannau. Mae'r Gymdeithas yn argymell fod y tannau yn cael eu newid gan athro telyn proffesiynol neu gan werthwr telynau os nad yw'r Benthyciwr yn gwybod sut i newid y tannau.

7. Bydd y sawl sydd yn derbyn y delyn yn cytuno i wneud cynnydd boddhaol drwy gael gwersi cyson yn ystod tymor y benthyciad. At ddefnydd y Benthyciwr yn unig mae'r delyn ac ni chaniateir i unrhyw unigolyn arall gael defnydd o'r delyn.

8. Bydd hawl gan unrhyw berson a awdurdodir gan y Gymdeithas i weld neu archwilio'r delyn ar amser sy'n gyfleus i'r ddwy ochr.

9. Rhaid hysbysu'r Swyddog Telynau yn ddi-oed os digwydd unrhyw ddamwain neu ddifrod, ac eithrio tannau'n torri, i'r delyn. Ni ddylid ar unrhyw gyfrif ymyrryd â'r peirianwaith.

10. Ni chaniateir ar unrhyw gyfrif roddi ei benthyg, ei hurio, neu ei gwerthu i unrhyw berson neu bersonau eraill. Caniateir mynd ar delyn o'r cartref **ond nid at ddefnydd na phwrpas masnachol.** Cyfrifoldeb y person sydd â gofal am y delyn yn ystod cyfnod y benthyciad fydd hynny - **rhaid cymryd yswiriant ychwanegol a phriodol i'r pwrpas yma.**

11. Bydd gan y Gymdeithas hawl i alw y delyn yn ôl unrhyw adeg os bernir fod un o'r rheolau uchod heb eu cadw. I'r perwyl hwn y mae'r Benthyciwr yn rhoi trwydded i'r Gymdeithas gael mynediad i gartref y Benthyciwr ar gyfer casglu'r delyn ar unrhyw gyfnod.

12. Cytuna'r Benthyciwr i yswirio'r delyn gyda pholisi telyn unigol neu drwy bolisi cartref. Bydd rhaid i'r Benthyciwr ddarparu copi o'r polisi hwn cyn i'r delyn gael ei ddarparu. Dylai'r polisi fod ac isafswm o £8,000.00 ac fe ddylai'r polisi sicrhau unrhyw ddifrod i'r delyn trwy ddamwain.

13. Os bydd amgylchiadau'r Benthyciwr yn newid yn ystod y cyfnod llogi am ba bynnag reswm neu'i gilydd yna bydd rhaid talu'n llawn am y cyfnod benthyg sy'n weddill yn unol â'r gytundeb a thalu unrhyw gostau eraill ychwanegol gan y Gymdeithas.